CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID

GEN-LD6961 – Cynnig Cyllideb Atodol 2007-08

Cefndir:

1. Mae Rheol Sefydlog 27 yn datgan:

27.23 Ni chaniateir i gynnig cyllideb atodol a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 27.21 gael ei wneud naill ai:

(i) nes bod y Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar y cynnig; neu

(ii) nes bod tair wythnos wedi mynd heibio ar ôl iddo gael ei gyflwyno, os nad yw'r Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar y cynnig.

27.24 Caiff adroddiad y Pwyllgor Cyllid argymell newidiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y cynnig cyllideb atodol ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu neu'n gostwng cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yn y cynnig cyllideb atodol.

2. Gosododd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r cynnig cyllideb atodol hwn ddydd Mawrth 19 Chwefror 2008. Felly'r dyddiad terfynol i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad arno yw dydd Mawrth 11 Mawrth.

3. Estynnodd y Pwyllgor Cyllid wahoddiad i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus gyflwyno'r gyllideb i'r Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2008. Yn anffodus, nid oedd y Gweinidog ar gael, ar fyr rybudd, i fynychu'r cyfarfod hwn ac roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar bod Dr Christine Daws, Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu bod yn bresennol yn ei le. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i'r Cyfarwyddwr Cyllid am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Gweithdrefnau Cyllidebol

4. Mynegodd y Pwyllgor Cyllid bryder yn ei adroddiad ynghylch cynigion cyllideb ddrafft y Llywodraeth ar gyfer 2008-09 o ran y terfynau amser caeth a osodir yn y Rheolau Sefydlog i Bwyllgorau ystyried cyllidebau'r Cynulliad a'r anhawster a gaiff y Gweinidogion o ran ymdopi â'r amserlenni hyn ac amserlenni'r Pwyllgorau. Mae'r Pwyllgor yn deall yn iawn pam nad yw'r Gweinidog ar gael ar fyr-rybudd i drafod y gyllideb ddrafft. Mae hyn yn dystiolaeth bellach o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â'r gweithdrefnau presennol a gaiff eu hystyried gan y Pwyllgor fel rhan o'i adolygiad o'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â'r gyllideb.

Tryloywder

5. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid wrth y Pwyllgor fod y gyllideb atodol, ar y cyfan, yn addasiad technegol i gyllidebau [ROP4] ac mewn gwirionedd yn fodd o dacluso trosglwyddiadau ariannol sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn deall hyn. Mae hefyd yn cydnabod ei bod yn anodd archwilio i'r ffactorau sy'n arwain at

danwariant a gorwariant yn erbyn y gyllideb mewn unrhyw fanylder ar yr adeg hon o'r flwyddyn ariannol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid wrth y Pwyllgor hefyd ei bod yn broses dryloyw ac yn fater o arfer da y dylid cynnal pleidlais yn y Cynulliad ar unrhyw drosglwyddiadau cyllidebol o un maes gweinidogol i un arall.

6. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cymeradwyo'r pwynt olaf ac o'r farn y dylai allu gweld y glir ym mhle mae newidiadau pwysig i gyllidebau yn cael eu cynnig a deall rhesymau'r Llywodraeth drostynt. Yn hyn o beth, roedd y Pwyllgor am i'r wybodaeth i gefnogi'r cynnig cyllideb atodol gael ei nodi mewn modd a fyddai'n hwyluso cymariaethau.

Trosglwyddo cronfeydd wrth gefn

7. Yn y drafodaeth ar yr angen am y £190m ychwanegol, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid wrth y Pwyllgor Cyllid [ROP 34] bod yr £83.1m a roddwyd i'r maes iechyd yn gam y bwriadwyd ei gymryd ers nifer o flynyddoedd. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei pharodrwydd i fod mor agored a dweud y dylai'r addasiad hwn fod wedi ei wneud ar ddechrau'r flwyddyn yn hytrach na'i diwedd. Noda hefyd bod y penderfyniad ar y gwariant hwn wedi'i wneud "a couple of years ago". **Gobaith y Pwyllgor yw y bydd Cyllidebau Atodol yn y dyfodol yn dangos yn glir pryd y cyhoeddwyd y trosglwyddiadau arfaethedig i'r Cynulliad, a phryd y'u trafodwyd.**

8. Mae'r Pwyllgor wedi llunio'r tabl canlynol sy'n nodi ac yn crynhoi'r newidiadau mewn cysylltiad â chronfeydd wrth gefn a roddwyd yn y Nodiadau Esboniadol a anfonwyd at yr Aelodau pan gyflwynwyd y cynnig cyllideb atodol.

£m

	o'r cronfeydd	**i'r cronfeydd**	**Cyfanswm yr adran**
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol			
Bodloni'r targedau o ran amseroedd aros	83.1		
Costau cyfalaf uwch ar ystadau'r GIG a symudiadau mewn darpariaethau	76.7		159.8
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai			
Grant tai cymdeithasol	4.6		4.6
Materion Gwledig			
Cynllun ŵyn ysgafn	3.2		
Tir Cymru		-1.0	2.2
Economi a Thrafnidiaeth			
Cyswllt rheilffordd Glyn Ebwy	13.6		
Grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau	2.0		
Teithio rhatach	7.0		

Cymorth rheilffyrdd	1.5		
Rhaglen Cymru o blaid Affrica	0.3		
Dibrisiant a diffyg - ffyrdd		-20.0	4.4
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau			
Tanwariannau amrywiol		-8.5	-8.5
Treftadaeth			
Canolfan Mileniwm Cymru	14.5		
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	1.7		16.2
Gweinyddiaeth Ganolog			
Costau cyfalaf a symudiadau mewn darpariaethau	10.0		
Ffioedd archwilio	0.3		10.3
Gwasanaethau Gweinidogol eraill			
Costau etholiad	1.4		
Arolwg Byw yng Nghymru a Bywyd Cyhoeddus	0.2		
Cysylltiadau corfforaethol	0.2		1.8
Cyfansymiau	220.3	-29.5	190.8

Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn

9. Nododd y Pwyllgor Cyllid bod y newidiadau hyn yn cyfateb i gynnydd net mewn gwariant o £190.8m ond, yn ôl y cynnig cyllideb, dim ond ar gyfanswm o £100.028m y byddai'r cronfeydd nas dyranwyd yn disgyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid wrth y Pwyllgor y byddai'r bwlch rhwng y ddau ffigur hyn yn cael ei gau wrth drosglwyddo £30m o refeniw o'r Trysorlys a £60m o adnoddau heb fod yn arian parod o arian cronedig Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn.

10. Noda'r Pwyllgor Cyllid mai fel y nodir yn y tabl isod y mae'r cronfeydd cronedig o'r hyblygrwydd diwedd blwyddyn ac mae wedi synnu na chawsant eu nodi yn y gyllideb. **Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i'r cyhoedd gyda'r brif gyllideb ac y dylai hyblygrwydd diwedd blwyddyn a gaiff ei dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn gael ei gofnodi mewn Cyllidebau Atodol**:

	£m
Refeniw (arian parod)	65
Adnoddau heb fod yn arian parod (taliadau dibrisiant a chostau taliadau cyfalaf)	300
Cyfalaf	140

Cyfanswm	505

11. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gadarnhau'r lefel o adnoddau sydd ar gael iddo o'r hyblygrwydd diwedd blwyddyn ac i nodi o ble y daw'r arbedion cronedig. Bwriada'r Pwyllgor ystyried y mater hwn eto ac mae hefyd yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i nodi'n glir sut y caiff y rhain eu defnyddio.

12. Noda'r Pwyllgor Cyllid bod y Trysorlys wedi cadarnhau y caiff yr adnoddau hyn eu cario drosodd i 2008-09 ond mae am gael cadarnhad nad oes perygl y caiff y £505m ei golli, o gofio'r datganiadau amrywiol a wnaeth Llwyodraeth y DU am sefyllfa ariannol dynn y DU yn y dyfodol.

13. Nododd y Pwyllgor nad yw'r Llywodraeth wedi nodi sut y caiff y cyllid ei wario yn 2008-09 ac mae'n pwysleisio'r alwad, a waned yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft 2008-09, am ddatganiad clir gan y Llywodraeth ar ei pholisi o ran cronfeydd wrth gefn.

Casgliad

14. Noda'r Pwyllgor Cyllid y newidiadau yn y Gyllideb Atodol ac esboniadau'r Llywodraeth ynghylch y rhesymau drostynt. Nid yw'n argymell unrhyw newidiadau i'r symiau a argymhellwyd yn y cynnig cyllideb atodol.

15. Fodd bynnag, mae tryloywder y broses yn peri pryder i'r Pwyllgor ac mae wedi argymell nifer o ffyrdd o wella hyn yn y dyfodol.

Alun Cairns AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid